



Eglurhad

Gall partneriaeth fwyd gael sawl swyddogaeth, ac yn sicr nid oes un math yn gweddu i bawb. Un o'r pethau pwysicaf y gall partneriaeth ei gwneud yw dangos y cysylltiadau rhwng bwyd, iechyd, cymuned, tegwch cymdeithasol, yr amgylchedd a ffyniant economaidd, a sut gall yr agwedd hon gyflwyno system fwyd gynaliadwy. Gall system fwyd gyfan integredig, gyd-gysylltiedig ddod â phobl a sefydliadau sydd â diddordebau amrywiol at ei gilydd er budd pawb.

Y man cychwyn ar gyfer y rhan fwyaf o bartneriaethau bwyd yw **dod â rhanddeiliaid at ei gilydd** i rannu syniadau ac i archwilio gweledigaeth neu ddiben a nodau cyffredin. I ddod yn aelod o'r Rhwydwaith SFC, mae angen i'r bartneriaeth fwyd gynnwys cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector busnes.

Mae cynrychiolwyr y **sector cyhoeddus** yn dueddol o ddod o amrywiaeth o adrannau o fewn yr awdurdod lleol (e.e. iechyd y cyhoedd, economi, cymunedau, yr amgylchedd a chydarddoldeb) neu o'r GIG (ymddiriedolaethau ysbytai, grwpiau comisiynu clinigol a gwasanaethau iechyd cymunedol). Efallai y byddwch hefyd am ymgysylltu â phrifysgolion lleol.

Dylai cynrychiolwyr y **trydydd sector** ddod o amrywiaeth o fudiadau sydd naill ai'n gysylltiedig â bwyd (e.e. cydweithfeydd bwyd, banciau bwyd, grwpiau tyfu, grwpiau coginio, ffermydd dinesig) neu o fudiadau seilwaith (e.e. cyngor gwasanaethau gwirfoddol) neu rwydweithiau sy'n cynrychioli prosiectau bwyd neu bryderon amgylcheddol (rhwydweithiau tyfu bwyd cymunedol, mudiad pontio etc.). Mae mentrau cymdeithasol yn perthyn i'r sector hwn ac maen nhw'n aelodau defnyddiol i'w cynnwys ar fwrdd hefyd. Gallai cynrychiolwyr o'r sector busnes ddod o ffermio, arlwyo, manwerthu, dosbarthu bwyd etc.

Mae ymgysylltu â **busnesau** (sector masnachol neu breifat) yn faes problemus i nifer o bartneriaethau bwyd. Mae Rhwydwaith SFC felly yn hapus i dderbyn partneriaethau bwyd heb fawr o gynrychiolaeth busnes, os o gwbl, cyn belled â bod ymrwymiad i ymgysylltu â busnesau wrth i'r bartneriaeth ddatblygu ac yr adlewyrchir hynny yn y cynllun gweithredu a'r cylch gorchwyl.

Bydd unrhyw bartneriaeth, yn enwedig un newydd, yn annhebygol o gael aelodaeth 'berffaith' gydag aelodau dylanwadol lefel uchel o'r cyhoedd, y sector cyhoeddus, y trydydd sector a busnes. Dyna ddylai fod y nod bob amser, ond bydd aelodaeth yn amrywio wrth i flaenoriaethau, pobl a gwleidyddiaeth newid. Mae'n bosib iawn y byddai'n well i bartneriaeth newydd gael llond llaw o aelodau ymroddedig sy'n gallu gyrru gweithredu yn ei flaen yn hytrach na grŵp mawr llai ymroddedig. Mae profiad yn dangos ei bod yn cymryd amser i ddatblygu'r ymddiriedaeth sydd ei hangen ar gyfer partneriaethau cryf.

Mae **dod â phobl at ei gilydd** i archwilio gweledigaeth gytûn ar gyfer y system fwyd leol yn allweddol i ddatblygiad ymgysylltu â rhanddeiliaid. Y ffordd orau o gyflawni hyn yw trwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb sy'n dod â chyfranogwyr posib y Bartneriaeth Fwyd at ei gilydd.

Pethau i'w hystyried

- Mae cyfarfodydd cychwynnol yn ymwneud â sefydlu perthnasoedd rhwng yr unigolion allweddol.
- Gallant fod yn anffurfiol ond dylent ganolbwyntio ar rannu: gwybodaeth; safbwyntiau ar faterion ac awgrymiadau ar weledigaeth a champau gweithredu cyffredinol.
- Mae'n syniad da cynnal pob cyfarfod mewn lleoliad gwahanol – yn ddelfrydol un o'r sefydliadau/mudiadau yn y grŵp. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu ymdeimlad o rannu cyfrifoldeb a chydbwysedd.
- Efallai y byddai partneriaethau bwyd newydd yn ei chael hi'n ddefnyddiol edrych ar y Canllaw [Strwythurau Partneriaethau Bwyd](#) sy'n amlygu'r straeon o sut mae aelodau SFC presennol wedi newid ynghyd â chanllawiau ar ddewis eich strwythur.
- Er mwyn pennu pwy yw'r rhanddeiliaid allweddol gall fod yn ddefnyddiol i Grŵp Llywio llai (gweler yr adran nesaf) ddefnyddio [Offer Mapio Meddwl y System Fwyd](#) gyda phwyslais ar **Gwestiwn 2**:

Pwy sy'n gwneud beth yn eich system fwyd leol?

- Mae'r adnodd yn awgrymu gofyn cwestiynau cynorthwyol, gan gynnwys:

Pwy yw'r **prif randdeiliaid** e.e. pobl, grwpiau, busnesau, mudiadau sydd:

- yn fwyaf cysylltiedig â'r system fwyd?
- yn cael y dylanwad mwyaf ar y system fwyd?
- yn debygol o gael eu heffeithio fwyaf gan newidiadau yn y system fwyd leol?

Pa bobl, grwpiau, busnesau a mudiadau sy'n cymryd rhan frwd mewn materion bwyd lleol, neu sy'n cynhyrchu, gwerthu neu'n darparu bwyd lleol?

Pwy i'w hystyried

- Nodi pwy yw'r Swyddogion allweddol yn yr Awdurdod Lleol
 - Tîm Cynaliadwyedd
 - Yr Amgylchedd
 - Cynllunio
 - Datblygu Economaidd
 - Iechyd y Cyhoedd
- Nodi pwy yw'r Rheolwyr allweddol yn y Sector Iechyd
 - Ymddiriedolaethau'r GIG
 - Gwasanaethau Iechyd Cymunedol
 - Grwpiau Comisiynu Clinigol
- Nodi pwy yw'r hyrwyddwyr bwyd cymunedol lleol allweddol
 - Prosiectau tyfu cymunedol lleol
 - Ymgyrchoedd bwyd lleol ac ymgyrchu
 - Sefydliadau a phrosiectau bwyd cenedlaethol â ffocws lleol

- Nodi pwy yw'r Busnesau bwyd lleol allweddol:
 - Ffermwyr a thyfwyr
 - Proseswyr
 - Arlwywyr
 - Manwerthwyr
 - Bwytai a chaffis – yn enwedig y rhai sy'n hyrwyddo cynnyrch lleol

Cwestiynau defnyddiol i fynd i'r afael â nhw

- Beth yn eich barn chi yw pwrpas y Bartneriaeth Fwyd/Strategaeth Fwyd?
- Pam fod angen Partneriaeth Fwyd/Strategaeth Fwyd?
- Beth mae'n ceisio ei chyflawni?
- Pwy ddylai fod yn cymryd rhan?
- Pa fath o strwythur sefydliadol fyddai'n gweddu orau i'r Bartneriaeth gyflawni ei hamcanion?
- Pa mor ymroddedig ydych chi i'r syniad o Bartneriaeth Fwyd leol a datblygiad Strategaeth Fwyd leol?
- A oes rhywbeth wedi'i wneud yn y maes hwn yn barod?
- A oes ffrydiau ariannu posibl o fewn gwahanol gyrff strategol/statudol i gefnogi'r fenter hon?

GRWPIAU LLYWIO

Eglurhad

Fel arfer, mae dyddiau cynnar adeiladu Partneriaeth Fwyd yn gyfarfodydd anffurfiol o randdeiliaid. Mae cyfarfodydd cynnar fel arfer yn canolbwyntio ar gael pobl i gymryd rhan ac i sefydlu pwy yw'r rhanddeiliaid allweddol o'r awdurdod lleol, y sector iechyd, bwyd cymunedol, sector busnes etc.

Y cam nesaf i nifer o Bartneriaethau Bwyd yw enwebu grŵp llai o bobl sy'n mynd i weithio'n frwd i symud y syniad o'r Bartneriaeth yn ei blaen. Gellid galw'r grŵp hwn yn Grŵp Llywio, pwyllgor llywio, ysgrifenyddiaeth neu bwyllgor rheoli er enghraifft. Mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at y grŵp fel y Grŵp Llywio.

Rôl y Grŵp Llywio

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r Grŵp Llywio yn arwain ar ddatblygiad y Bartneriaeth Fwyd, y Cynllun Gweithredu a'r Strategaeth Fwyd.

Gallai tasgau posib y Grŵp Llywio gynnwys:

- Gweithredu fel pwynt ffocws
- Cynnig fforwm i drafod a dadlau
- Ysgogi rhanddeiliaid ehangach i ymgysylltu â'r broses o gynllunio camau gweithredu a datblygu strategaeth
- Codi proffil y Bartneriaeth Fwyd a'r Cynllun Gweithredu
- Sefydlu a derbyn adroddiadau gan is-grwpiau ar themâu penodol e.e. tloedi bwyd, gwastraff, caffael
- Helpu i ddatblygu ffyrdd mwy effeithiol o gyflawni pethau
- Cynnal egni a brwdfrydedd

Pwy ddylai fod ar y Grŵp Llywio?

Fel arfer, mae Grwpiau Llywio yn cynnwys cynrychiolwyr o sectorau gwahanol, gan gynnwys:

- Yr Awdurdod Lleol
- Prifysgolion a sefydliadau academiaidd eraill
- GIG ac Iechyd y Cyhoedd
- Mudiadau bwyd cymunedol
- Busnesau bwyd
- Mudiadau cymunedol a gwirfoddol y trydydd sector.

Y dull symlaf yw creu rhestr o sefydliadau rhanddeiliaid yr hoffech gael eu cynrychioli ar eich Grŵp Llywio ac yna gofyn i bob sefydliad enwebu cynrychiolydd. Serch hynny, mae nifer o Bartneriaethau Bwyd yn pwysleisio pwysigrwydd cael yr unigolion iawn gyda'r bersonoliaeth a'r weledigaeth iawn ar y Grŵp Llywio, a bod hyn yn aml yn bwysicach na beth yw 'rôl' benodol pobl. Felly, efallai y byddai'n werth treulio amser i ddod i adnabod eich rhanddeiliaid a mynd at rai pobl o fewn y sefydliadau hyn.

Fel arall, efallai y byddwch eisiau sefydlu proses i ethol aelodau i'ch grŵp llywio. Mae'r dull hwn wedi'i fabwysiadu gan nifer o aelodau SFP (mae Partneriaeth Fwyd Leeds yn enghraifft dda) ac yn dangos ymrwymiad i ethos a llywodraethu democrataidd, cyfranogol a chynhwysol.

Cyfrifoldebau a disgwyliadau

Mae'n ddefnyddiol bod yn glir ynglŷn â beth yw cyfrifoldebau a disgwyliadau aelodau'r Grŵp Llywio. Gallai hyn gael ei amlinellu yn eich Cylch Gorchwyl er enghraifft (gweler adnodd **GWEITHDY CYLCH GORCHWYL**) a gallai gynnwys:

- Dangos ymrwymiad gwirioneddol i wneud i'r Bartneriaeth Fwyd weithio
- Ddim yn gweithio i'w hagenda eu hunain ond i agenda'r grŵp a datgan unrhyw fuddiannau sydd ganddyn nhw
- Mynychu isafswm o gyfarfodydd er mwyn cynnal eu haelodaeth
- Cael capasiti i gymryd rhan weithredol yn y Grŵp Llywio a rhwng cyfarfodydd
- Defnyddio unrhyw wybodaeth neu brofiad penodol i helpu'r grŵp i wneud penderfyniadau cadarn
- Helpu i ysgogi gweithredu drwy eu gallu i ddylanwadu ar weithredoedd o fewn eu sefydliadau eu hunain

Penodi Cadeirydd

Nododd Aelodau'r SFP fod 'Cael Cadeirydd cryf' yn ffactor allweddol sy'n cyfrannu at eu llwyddiant. Dylai'r Cadeirydd:

- fod yn llysgennad ac yn gallu dylanwadu
- cynnig arweinyddiaeth effeithiol i'r Grŵp Llywio
- sicrhau bod camau gweithredu'r Grŵp Llywio yn cael eu gweithredu, a
- sicrhau cysylltiadau gydag agendau strategol eraill.

Yn y rhan fwyaf o Bartneriaethau Bwyd, caiff y Cadeirydd ei ethol gan weddill y Grŵp Llywio. Defnyddir cadeirydd ar batrwm cylch gan rai, ond mae hyn wedi digwydd pan ystyriwyd rôl y cadeirydd yn fwy fel cadeirio cyfarfodydd yn hytrach na gweithredu fel arweinydd y Bartneriaeth Fwyd.

Awgrymiadau gwyh y Grŵp Llywio

Mae'n bwysig i bartneriaid ymrwymo i'r bartneriaeth gyda buddiannau'r bartneriaeth mewn golwg, yn hytrach na'u buddiannau sefydliadol eu hunain.

Treuliwch amser ar y cychwyn yn dod i adnabod rhanddeiliaid i weld pwy fyddai orau ar y grŵp llywio.

Beth bynnag yw cyfansoddiad y Grŵp Llywio, mae'n syniad da galluogi'r Grŵp Llywio i gyfethol aelodau ychwanegol i lenwi bylchau mewn arbenigedd pe byddai'r angen yn codi.

Dylai cyfarfod llwyddiannus o'r Grŵp Llywio gwestiynu, cynnig syniadau a phersbectif ffres.